



Cofnodion Grŵp Gweithredu Lleol

Cofnodion Grŵp Gweithredu Lleol Gwynedd - LEADER.

20.02.2019

Hufenfa De Arfon, Y Ffôr

Yn Bresennol:

Cynrychiolaeth o'r Sector Fenter:		
Ian Nellist	(IN)	FSB
Dafydd Watts	(DW)	Ymddiriedolaeth Arbed Ynni
Gwenan Williams (Cadeirydd)	(GW)	Bwyty Lleu
Ceri Cunnington	(CC)	Antur Stiniog
Alun Wyn Evans	(AW)	NFU/FUW
Gwion Llwyd	(GLI)	Dioni
Cynrychiolaeth o'r Sector Gwirfoddol:		
Sian Tomos	(ST)	Gisda Cyf
Arwel Jones	(AJ)	Partneriaeth Llyn
Craig ap Iago	(CI)	Dyffryn Nantlle 2020
David Ingham	(DI)	DIY Industries Cyf
Cynrychiolaeth o'r Sector Cyhoeddus:		
Iolyn Jones	(IJ)	Un Llais Cymru
Einir Young	(EY)	Prifysgol Bangor
Rhodri Owen	(RO)	Coleg Glynllifon
Cynrychiolaeth o Gyngor Gwynedd:		
Cynrychiolaeth o Fenter Môn/ Arloesi Gwyendd Wledig:		
Zoe Pritchard	(ZP)	
Rachel Roberts	(RR)	
Eleth Peate	(EP)	
Aaron Warren	(AW)	
Rhian Hughes	(RH)	
Rhys Gwilym	(RG)	
Carwyn ap Myrddin	(CM)	
Dafydd Gruffydd	(DG)	





Cofnodion Grŵp Gweithredu Lleol

Pwynt	Manylion	Gweithred
Cyfarfod Grŵp Gweithredu Lleol		
1.	Cafodd croeso ei ymestyn i bawb i'r cyfarfod gan Gwenan Williams, cadeirydd newydd y LAG i'r flwyddyn 2019. Estynodd GW groeso i ddau aelod newydd i'r LAG, Iolyn Jones a Geraint Strello er nad oedd Geraint yn bresennol.	
2.	Derbyniwyd ymddiheuriadau gan 6 aelod trwy law RG. <ul style="list-style-type: none"> • Menna Jones (Antur Waunfawr) • Helen Pye (Parc Cenedlaethol) • Cyng. Ioan Thomas • Carys Williams (Mantell Gwynedd) • Geraint Strello (BT) • Dylan Griffiths (Cyngor Gwynedd) 	
3.	<u>Cyflwyniad i Hufenfa De Arfon</u> Cyn cychwyn y cyfarfod, rhoddodd Peredur Williams (aelod o staff Hufenfa De Arfon) gyflwyniad ar hanes Hufenfa De Arfon i bawb oedd yn bresennol yn y cyfarfod a dangosodd fideo byr yn amlygu beth mae'r cwmni yn ei wneud. Cafodd pawb yn y cyfarfod drïo ychydig o gaws Dragon hefyd.	
4.	<u>Datganiadau o Ddiddordeb</u> Cwblhaodd Einir Young ffurflen Datgan Diddordeb ar gyfer cais Cronfa Peilota Gwynedd Treborth Botanical Gardens gan fod TBG yn ran o Prifysgol Bangor ac mae hi'n aelod o staff y Brifysgol. Cwblhaodd Alun Evans ffurflen Datgan Diddordeb ar gyfer cais Amaethyddiaeth Cymysg oherwydd ei fod yn berchen ar dir o fewn Biosffer Dyfi.	
5.	<u>Cofnodion Cyfarfod 17/10/2018</u> Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod fel rhai cywir. Nid oedd dim yn codi o'r cofnodion. Roedd CC a ST yn eilio'r cymeradwyaeth.	
6.	<u>Cyflwyniad i Ffordd Cymru</u> Cafwyd gyflwyniad i'r cynllun Ffordd Cymru gan Gwawr Price sydd yn gweithio i Croeso Cymru. Mae Ffordd Cymru yn gynllun 10 mlynedd sy'n bwriadu rhoi Cymru ar y map drwy hybu bobl i deithio o gwmpas Cymru a darganfod mwy am y wlad. Esboniodd Gwawr eu bod wedi cynllunio 3 llwybr gwahanol yn y cynllun; <ol style="list-style-type: none"> 1. Ffordd Cambria 	





Cofnodion Grwp Gweithredu Lleol

	<ol style="list-style-type: none">2. Ffordd yr Arfordir3. Ffordd y Gogledd <p>Esboniodd Gwawr fod hi'n hollbwysig cyd-weithio gyda busnesau ac adrannau eraill gyda'r cynllun hwn fel eu bod yn buddio ohono. Mae pwyslais ar ymwelwyr i ddilyn y llwybr ond hefyd i fynd oddi arno weithiau er mwyn darganfod pentrefi, mynyddoedd ac atyniadau eraill. Eglurodd Gwawr fod cynlluniau tebyg yn bodoli'n barod mewn gwledydd fel Yr Alban, Iwerddon a Norway.</p> <p>Roedd yr aelodau yn meddwl fod y cynllun hwn yn un da ac fod posib i AGW beilota prosiect sy'n gysylltiedig gyda Ffordd Cymru. Atgoffodd DG fod Ychwanegu gwerth at y Llwybr Arfordir yn un o Nodau Penodol y Strategaeth Datblygu Lleol.</p> <p>Cododd IN bryderon o sut y bydd nhw yn cyd-weithio gyda Cyngor Gwynedd gan fod yno doriadau wedi bod yn ddiweddar sy'n golygu efallai y bydd rhai darnau o'r ffordd yn cael ei effeithio e.e. pont troed Bermo yn cau. Eglurodd GP eu bod yn gweithio'n agos efo'r Cyngor.</p> <p>Eglurodd CM ei fod wedi cael sgysiau cychwynnol gyda Swyddogion LEADER siroedd eraill sy'n rhan o Ffordd Cymru. Roedd yr aelodau yn awyddus i CM a'r swyddogion eraill i gario ymlaen efo'r cyfathrebu yma. Gofynnodd DW os oedd modd cynnwys Pwyntiau Ceir Trydan yn y Llwybr. Cytunodd GP fod hyn yn sicr rhywbeth y gellir edrych i mewn iddo.</p>	
7.	<p><u>Diweddariad Cyllid</u></p> <ul style="list-style-type: none">• ZP yn rhoi diweddariad Cyllid. Atgoffodd y LAG fod yno £2.5 miliwn wedi cael ei glustnodi i'r cynllun LEADER ac mae angen cael ei wario erbyn 2021. Eglurodd ZP fod £1,129,590.21 wedi cael ei ddyrannu gan y GGLL hyd yma, sy'n golygu ein bod hanner ffordd drwy'r cyllid. <p>Petae'r GGLL yn cymeradwyo'r holl brosiectau heddiw (cyfanswm cyfraniad AGW o £153,064.14), byddai'n gadael £1,095,986.86 ar ôl i'w glustnodi a'i wario cyn Rhagfyr 2021.</p> <p>Eglurwyd fod yno danwariant gyda 4 prosiect:</p> <ol style="list-style-type: none">1. <u>Twizys</u>- Tydi'r prosiect yma ddim wedi mynd yn ei flaen. Wedi cael ei addasu i brosiect Ceir Cymunedol Trydanol. Arian posib i'w ail ddyrannu: £55,601.502. <u>Galwad Agored Cymunedol</u>- Tanwariant yn y prosiect. Arian posib i'w ail ddyrannu: £3,387.473. <u>VR Dementia</u>- Diffyg tystiolaeth Caffael. Arian posib i'w ail ddyrannu: £11,971.924. <u>Cylchdaith Carneddau</u>- Prosiect ddim wedi mynd yn ei flaen. Arian posib i'w ail ddyrannu: £2,000.00	





Cofnodion Grwp Gweithredu Lleol

<p>Cyfanswm arian i'w ail ddyrannu: £72,960.89</p> <ul style="list-style-type: none">• Cronfa Peilota Gwynedd <p>Eglurodd ZP fod Rownd 4 y gronfa newydd fod ac derbyniwyd 9 cais. Penderfynwyd y Panel Asesu gymeradwyo 5 allan o'r 9 cais yma (cyfanswm cyfraniad AGW o £36,944). Ar hyn o bryd, mae £22,236.06 ar ôl yn y gronfa sy'n golygu nad oes digon o arian yn y gronfa i ariannu'r 5 cais o Rownd 4. Gofynnodd ZP i'r GGLL os oedden nhw'n hapus i symud £14,707.94 o'r pot cyllid i'r gronfa er mwyn gallu cymeradwyo'r ceisiadau.</p> <p>Roedd yr aelodau yn cymeradwyo'r 5 cais ac yn cymeradwyo'r £14,707.94 o'r arian ychwanegol.</p> <p>Esboniodd ZP fod yno £77,763.94 wedi cael ei glustnodi hyd yn hyn, ond dim ond £39,868.83 sydd wedi cael ei wario. Roedd ZP yn awgrymu rhoi seibiant bach i'r gronfa fel ein bod yn gallu mynd yn ôl at brosiectau o'r rowndiau blaenorol i'w annog i wario'r arian sydd wedi cael ei glustnodi, gan fod nifer ohonynt yn araf iawn yn gwario'r pres.</p> <p>Roedd yr aelodau yn gefnogol o hyn.</p> <p>Cymerodd ZP y cyfle yma i son am yr help mae'r gronfa peilota wedi ei wneud i Tafarn Yr Heliwr, Nefyn. Cafodd y menter hwn arian o'r gronfa yn y rownd gyntaf er mwyn comisiynu Cynllun Busnes ac bellach mae'r fenter wedi llwyddo i brynu'r adeilad i'w droi yn dafarn cymunedol. Hefyd mae Meithrinfa Maesywaun wedi llwyddo i dderbyn grant cyfalaf tuag at adeilad yn yr ardal ar ôl iddynt dderbyn arian o'r gronfa peilota i gomisiynu cynllun busnes.</p> <p>Diweddariad AGW</p> <ul style="list-style-type: none">• Eglurodd ZP fod AGW yn mynd i ddefnyddio'r misoedd nesaf rhwng y cyfarfod yma a'r un nesaf yn mis Mai fel cyfnod adlewyrchu. Mae yno 3 prif rheswm pam penderfynwyd i wneud hyn:<ol style="list-style-type: none">1. Diwedd mis Mawrth rydym i fod i dderbyn adroddiad Gwerthusiad gan Wavehill. Mi fydd hyn yn gyfle da i gymeryd cam yn ôl ac edrych ar beth sydd wedi cael ei gyflawni yn barod a sut y gallwn ni wella y ffordd yr ydym yn gweithredu.2. I edrych yn ôl dros hen brosiectau er mwyn gweld beth sydd wedi cael ei ddysgu ohonynt a sut yr ydym yn rhannu hyn efo'r cyhoedd. Mae'n gyfle da i farchnata ein Gwaith drwy rannu twlkits, case studies ayyb.	
--	--





Cofnodion Grwp Gweithredu Lleol

	<p>3. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyfle i AGW ymestyn yr amser gweithredu i 2023. Eglurodd Zoe fod AGW eisiau trio ymestyn yr arian mor bell a phosib, felly does dim pwysau i wario ar y funud.</p> <p>Eglurodd DG fod swyddogion yn aml ddim yn cael amser i ddysgu a gwerthuso eu prosiectau gan eu bod yn gweithio ar brosiectau newydd yn ar ôl y llall. Cytunodd CC fod yno lawer o bethau y gallwn ddysgu o'r 2-3 blynedd diwethaf o weithredu'r cynllun LEADER yng Ngwynedd. Sicrhaodd ZP y GGLL fod AGW dal efo prosiectau byw â fydd yn cael eu cydlynu yn y cyfnod seibiant hwn. Hefyd eglurodd ein bod yn bwriadu cynnal digwyddiad 'Digidol' mis Mai er mwyn rhannu beth sydd wedi cael ei ddysgu o brosiectau digidol gyda busnesau, rhanddeiliadau a'r cyhoedd. Mae yno hefyd gynlluniau i drio rhannu wybodaeth gyda grwpiau LEADER eraill yng Nghymru.</p> <p>Dywedodd AE fod NSA yn cynnal digwyddiadau yn Glynllifon yn y misoedd nesaf efallai y byddai AGW yn gallu cael stondin. Ychwanegodd EY fod Wythnos Busnes Gwynedd yn cael ei gynnal mis Mai, sydd yn gyfle da i AGW i hyrwyddo a mynychu digwyddiadau.</p> <p>Awgrymodd AJ y byddai hi'n syniad da cael dogfen yn esbonio'r holl bethau mae AGW wedi treialu ac beth fydd yn gallu cael ei wneud allan o hyn o ganlyniad.</p> <p>Aelodau yn cytuno i'r cyfnod adlewyrchu, ac yn deall na fydd prosiectau newydd yn cael eu cyflwyno yn y LAG nesaf yn mis Mai 2019.</p>	
8.	<p><u>Diweddariad Prosiectau Cyfredol</u></p> <p>• Ymchwil Gwlân</p> <p>Rhoddodd CM ddiweddariad ar yr ymchwil hwn. Eglurodd ei fod yn gyfle i edrych ar y potensial i ychwanegu gwerth i wllân Cymreig ac os oes gofyn am felin sgwrio yng Ngwynedd. Bwriad yr ymchwil yma yw edrych am gyfleoedd yng Ngwynedd i werthu gwllân fel cynnyrch Gwlân Cymru gan sefydlu os oes yna alw ar gyfer Gwlân Cymru fel adnodd ar gyfer cynhyrchwyr, manwerthwyr ac ymwelwyr/cwsmeriaid.</p> <p>Eglurodd CM fod digwyddiad/gweithdy wedi cael ei gynnal yn ddiweddar er mwyn trafod y syniad gyda arbenigwyr, cynhyrchwyr, y cyhoedd ayyb. Daeth bron i 30 o bobl i'r digwyddiad sy'n dangos fod yno grwp o ddiddordeb yn y maes sy'n gweld gwerth a photensial yn yr adnodd. Cytunodd RO fod yno gyfle yma, gan nad yw ffermwyr yn gwneud elw allan o wllân fel arfer. Roedd DI yn cytuno fod hwn yn ymchwil sydd angen cael ei wneud i mewn i'r maes.</p>	





Cofnodion Grwp Gweithredu Lleol

Eglurodd CM fod yr ymgynghorydd yn gobeithio gorffen yr adroddiad erbyn diwedd mis Chwefror.

• Peiriant Fendio Cynnyrch Lleol

Eglurodd RR fod y prosiect hwn wedi cael seibiant oherwydd problemau gyda dewis peiriant addas ond ei fod yn cael ei ail-ddechrau y flwyddyn yma. Cafodd Galwad Agored ei wneud er mwyn dod o hyd i leoliad addas i'r peiriant fendio a dangosodd nifer iawn o fusnesau a grwpiau ddiddordeb mewn treialu'r peiriant ar eu safle nhw. Eglurodd RR mai'r lleoliad sydd wedi cael ei ddewis yw Gwersyll Nant y Big, Cilan oherwydd mae'n leoliad sydd yn denu nifer o ymwelwyr yn yr haf ac does yno ddim siop o fewn pellter cerdded i'r safle. Mae RR wedi bod mewn cysylltiad gyda 7 o gynhyrchwyr bwyd lleol ynglyn â gwerthu eu cynnyrch yn y peiriant fendio e.e. Oinc OinK, Llaethdy Llŷn. Eglurodd RR y bydd 20% o mark-up ar phob un eitem a mi fydd yr arian ychwanegol yma yn cael ei roi i berchennog Gwersyll Nant y Big am ei waith o gadw, cynnal a monitro'r peiriant.

Dywedodd RR fod LEADER siroedd eraill wedi dangos diddordeb yn y syniad hwn, efallai fod hyn yn gyfle i greu digwyddiad i rannu? Gofynnodd AJ os oes posib i gysylltu y prosiect yma hefyd gyda cynllun Ffordd Cymru.

• Awstria

Rhoddodd RH ddiweddariad i'r aelodau o ymweliad LEADER Gwynedd a Môn i Awstria. Eglurodd RH mai pwrpas yr ymweliad oedd i drafod syniadau ar gyfer prosiect cyd-weithredol rhwng y ddwy wlad. Mae yno 6 rhanbarth LEADER yn Awstria, ac mae rhanbarth Glossglockner wedi derbyn €3 miliwn mewn cyllid i wario ar brosiectau. Esboniodd RH mai'r math o brosiectau maent yn ariannu yw marchnata busnesau, llwybrau beicio, slow food ayyb. Mae Awstria yn wynebu yr un math o heriau â Gwynedd a Môn sef colli pobl ifanc o'r ardal a pentrefi gwag gyda nifer o ail-gartrefi. Mae hyn yn golygu fod yno gyfle i gyd-weithio er mwyn datrys yr un mathau o broblemau mewn dwy wlad wahanol.

Cadarnhawyd y bydd tîm AGW yn parhau efo sgysiaau gyda'r grwp LEADER yn Awstria i **ddatblygu prosiect cydweithredol.**





Cofnodion Grwp Gweithredu Lleol

9.	Ceisiadau i'w cymeradwyo	
9.1	<p>1. AGW.091- Gwyliau Araf</p> <p>CM yn rhoi cyflwyniad i'r prosiect hwn. Bwriad y cais hwn yw i weld os y gellir marchnata Pen Llŷn fel lleoliad ar gyfer 'Gwyliau Araf' sydd yn cyferbynnu efo'r duedd diweddar o Gogledd Cymru fel lleoliad Gwyliau Antur. Eglurodd CM ei fod wedi bod yn cyfarfod gyda grwp o bobl busnes a phobl sy'n gweithio yn y sector twristiaeth ym Mhen Llŷn sy'n awyddus i weld yr ardal yn cael ei farchnata fel lleoliad distaw, ymlaciol lle gall pobl ddod i ddianc o brysurdeb pob dydd. Dywedodd CM fod hi'n bosib cynnwys y Parc Cenedlaethol yn y prosiect hwn drwy edrych mewn i statws Awyr Dywyll yr ardal. Mi fydd y prosiect yn cynnig hyfforddiant i'r grwp er mwyn i nhw gymeryd perchnogaeth ohono yn yr hir dymor er enghraifft hyfforddiant creu fideos byr gyda arbenigwr. Eglurodd CM fod AHNE yn awyddus i weithio hefo'r grwp a bosib datblygu prosiect pellach gyda nhw. Mae hwn yn gynllun y byddai'n gallu cael ei efelychu mewn ardaloedd eraill tebyg i Llŷn.</p> <p>Roedd EY yn awyddus i gael gwybod sut y byddai'r grwp yn cael ei fonitro i sicrhau eu bod yn cymeryd perchnogaeth o'r prosiect. Roedd yr aelodau yn gefnogol o'r cais.</p> <p>Cymeradwyodd aelodau'r LAG y prosiect peilot ar gyfanswm o £4,750.</p>	
9.2	<p>2. AGW.093- Data Gwynedd</p> <p>Rhoddodd RR gyflwyniad i'r cais hwn. Eglurodd RR fod Cyngor Gwynedd wrthi yn gosod wi-fi cymunedol mewn 10 cymuned yng Ngwynedd, yn ychwanegol at y cymunedau lle mae'r dechnoleg wedi ei osod yn barod e.e. Caernarfon, Aberdaron. Hefyd atgofodd RR fod AGW hefyd wedi comisiynu i osod y dechnoleg mewn cymunedau o gwmpas droed y Wyddfa.</p> <p>Bwriad y prosiect hwn yw i ychwanegu gwerth i'r prosiectau sy'n digwydd yn barod gan CG. Y bwriad yw rhedeg prosiect peilot sy'n dangos sut y gall y data sy'n cael ei gasglu o'r wi-fi cyhoeddus gael ei ddefnyddio gan y cymunedau er mwyn ei ddadansoddi a'i ddefnyddio i'w mantais nhw. Esboniodd RR y bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu i'r gymuned er mwyn defnyddio'r data, creu cynnwys wedi'i deilwra ar sail y data a defnyddio meddalwedd</p>	





Cofnodion Grwp Gweithredu Lleol

	<p>addas. Mi fyddai'r data yn gallu dweud faint o bobl sydd wedi ymweld â'r dref/pentref, pa mor hir arhosodd nhw yno ayyb.</p> <p>Awgrymodd AJ i ni gael sgwrs gyda rhai o'r cymunedau sydd wedi gosod y math yma o dechnoleg yn eu cymuned yn barod. Nododd fod llawer ohonynt ddim efo'r amser/sgiliau i ddadansoddi'r data. Eglurodd DG fod cymunedau fel Aberaeron, sydd yn engrhaifft dda o gymuned sy'n defnyddio'r data, yn gyrru y data i ffwrdd i arbenigwr i gael ei ddadansoddi ac wedyn mae'n cael ei yrru yn ôl i nhw.</p> <p>Cymeradwyodd aelodau'r LAG y prosiect peilot ar gyfanswm o £12,200.</p>	
9.3	<p>3. AGW.089 – Ceir Cymunedol Trydanol</p> <p>Rhoddodd CM gyflwyniad i'r cais hwn ac egluro ei fod wedi'i ddeillio o'r prosiect a gymeradwywyd yn flaenorol, sef prosiect Twizys. Mae'r cynllun hwn wedi'i ddatblygu yn dra gwahanol i'r prosiect Twizys, ac felly yn cael ei gyflwyno fel prosiect hollol newydd i aelodau'r LAG.</p> <p>Bwriad y prosiect hwn yw i dreialu cynllun ceir cymunedol trydanol yng Ngwynedd drwy leoli dau gar trydanol mewn cymunedau er mwyn gwasanaethu trigolion yr ardal. Mae yno nifer o bobl yng Ngwynedd sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn cael eu ynysu, felly mi fyddai'r prosiect hwn yn fanteisiol i'r grwp yma o bobl drwy helpu efo pethau fel apwyntiadau doctor, siopau bwyd ayyb. Eglurodd CM fod cael grwp ymroddedig o wirfoddolwyr yn hollbwysig i'r cynllun oherwydd hebddynt ni fyddai'r prosiect yn gallu cael ei weithredu.</p> <p>Eglurodd CM fod y prosiect hefyd yn gyfle i bobl dreialu ceir trydanol gan ei fod yn sector sydd yn tyfu mewn poblogrwydd. Mi fydd hefyd yn ffordd o gael sylw gan y wasg er mwyn amlygu'r defnydd o geir trydanol ac yr effaith positif o geir cymunedol.</p> <p>Cytunodd DG fod y cynllun hwn gyda gwell pwrpas nac y cynllun Twizys blaenorol ac fod angen grwp o wirfoddolwyr da. Codwyd bryderon am yr angen i gael grŵp o wirfoddolwyr ymroddgar, a cadarnhawyd gan CM y bydd rhaid i grwpiau gwirfoddol ymgeisio i fod yn rhan o'r prosiect.</p> <p>Cymeradwyodd aelodau'r LAG y prosiect peilot ar gyfanswm o £58,289.60.</p>	





Cofnodion Grwp Gweithredu Lleol

9.4	<p>4. AGW.092- Ynni Gogledd Cymru</p> <p>RR yn rhoi cyflwyniad i'r prosiect. Bwriad y prosiect hwn yn y pendraw yw i gyflenwi ynni cymunedol lleol i fusnesau lleol. Eglurodd RR y bydd y prosiect yn peilota mecanwaith sy'n debyg i wefan gymharu lle bydd busnesau ardal Cyd Ynni yn gallu elwa o dariff ynni hydro lleol sy'n cynnig prisiau is i gynhyrchwyr. Ychwanegodd RR fod yn rhaid i'r briff gael ei roi allan i gaffael, ond mi fyddai'r cwmni Ecotricity yn gallu creu'r plattform. Cododd DW bryderon fod cael tariff sefydlog am 10 mlynedd yn rhy optimistig ac y bydd rhaid bod yn fwy realistig, ond fel arall roedd yn gefnogol o'r cais. Ychwanegodd fod y cwmniau mawr yn cael prisiau da am egni yn barod, felly bydd y prosiect hwn yn targedu y busnesau bychain.</p> <p>Dywedodd AJ fod hwn yn brosiect fydd yn gallu ychwanegu at ddelwedd busnesau lleol oherwydd eu bod yn defnyddio egni gwyrdd lleol.</p> <p>Cododd DI bryderon fod hwn yn brosiect sydd ond am fuddio Cyd Ynni a ddim y gymuned ehangach.</p> <p>Dywedodd RO fod posib i gwmniau fel Aber Falls godi mwy am eu cynnyrch am ddefnyddio egni lleol.</p> <p>Dywedodd AJ fod hwn yn gais arloesol sydd ddim yn cael ei wneud mewn ardaloedd eraill. Cytunodd CC ac ychwanegu ei bod hi'n iach cael trafodaethau am egni adnewyddadwy.</p> <p>Awgrymodd DG y bod grwp arbennig yn cael ei ffurfio er mwyn trafod pryderon a godwyd gan aelodau'r LAG wrth drafod y cais.</p> <p>Cymeradwyodd aelodau'r LAG y cais am y swm llawn o £34,970 gyda'r amodau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> AGW i dderbyn diweddariad dwys gan Cyd Ynni o'r sefyllfa bresennol efo'r prosiectau peilot eraill sydd yn bodoli drwy cymorth AGW. Detholiad o aelodau'r LAG i gyfarfod efo Cyd Ynni i drafod y cais hwn yn bellach cyn i'r prosiect ddechrau. 	
9.5	<p>5. AGW.090- Co-op Caws</p> <p>Rhoddodd CM gyflwyniad i'r cais hwn. Bwriad y cais yw i ymchwilio i mewn i faint o bobl yng Ngwynedd sy'n cynhyrchu caws eu hunain ac os oes yno alw am offer arbenigol er mwyn galluogi'r cynhyrchwyr yma gynhyrchu caws ar raddfa fwy. Mi fydd yn galluogi ffermwyr arbrofi gyda chreu caws ond hefyd yn rhoi cyfle i'r rhai sy'n cynhyrchu caws eisoes i dyfu eu busnes.</p>	





Cofnodion Grwp Gweithredu Lleol

	<p>Eglurodd CM fod Glynllifon newydd osod unedau cynhyrchu bwyd ar eu safle yn ddiweddar felly mae posib cyd-weithio gyda nhw. Awgrymodd EY fod yr ymgynghorydd yn crybwyll fod labelu'r caws yn cael ei wneud yn ddwyieithog ac yn arddangos yn glir fod y caws wedi cael ei gynhyrchu yng Nghymru.</p> <p>Cododd CI bryderon na fydd y pobl sy'n cynhyrchu caws yn barod yn hapus fod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu caws. Eglurodd CM mai ymchwil yw'r cais hwn fydd yn cael ei ddefnyddio i helpu pobl sydd yn meddwl am ddechrau cynhyrchu caws a rhai sy'n cynhyrchu caws eisoes. Mi fydd yr ymchwil yn cael ei rannu'n gyhoeddus, ac mi fydd staff AGW yn ceisio rhannu'r wybodaeth yn uniongyrchol efo unrhyw gynhyrchwr caws sydd yn bodoli eisoes yng Ngwynedd.</p> <p>Cymeradwyodd aelodau'r LAG y prosiect pilot ar gyfanswm o £4,950.</p>	
9.6	<p><u>6. AGW.088- Ffermio Cymysg: Prosiect Cydweithredol gyda Powys a Ceredigion</u></p> <p>Rhoddodd CM esboniad byr i'r cais cyn croesawu Chris Higgins (CH) ac Andy Rowlands (AR) o Ecodyfi i'r cyfarfod er mwyn esbonio'r cais mewn manylder. Eglurwyd cefndir y prosiect i'r LAG ac mai nod cyffredinol y cais hwn yw i annog symudiad tuag at amaethyddiaeth gymysg gynaliadwy ac economi bwyd lleol. Mi fydda nhw yn gwneud hyn drwy gasglu data yn dangos defnydd tir amaethyddol a choetiroedd ardal Dyfi. Mi fydda nhw yn casglu data hanesyddol, cyfoes ac ategol ac yn eu rhoi i gyd mewn un system er mwyn creu porth gwybodaeth fydd ar gael i ffermwyr, rhanddeiliaid a'r cyhoedd. Dywedodd Chris eu bod wedi cael cyfarfodydd gyda nifer o grwpiau i brofi tystiolaeth angen e.e. Farmers Union Wales, Farming Connect, LEAF. Mae'r prosiect yn ceisio cyflawni gwerthfawrogiad o gyfleoedd cnwdio ehangach a sefydlu rhwydwaith o ffermwyr i'w dreialu.</p> <p>Eglurodd DG fod prosiectau cydweithredol yn anodd i'w gweithredu gan ein bod ddim mewn rheolaeth llwyr o'r prosiect. Dywedodd CI ei fod yn gefnogol o'r cais, ond cododd bryderon ynglyn â arallgyfeirio ffermwyr gan ei fod wedi gweithio gyda nhw o'r blaen ac wedi cael trafferth oherwydd problemau fel cost. Cwestiynodd IJ os yw'r data wir yn mynd i ysgogi y ffermwyr i newid y ffordd maent yn gweithredu.</p> <p>Eglurodd AR mai'r trafodaethau ynglyn â'r data fydd yn ysgogi'r ffermwyr i gysidro newidiadau.</p>	





Cofnodion Grwp Gweithredu Lleol

Cododd RO bryderon fod hi'n risg mawr i ffermwyr newid y busnes. Mae ffermio cymysg yn gofyn am sgiliau gwahanol, dyna pam mae rhan fwyaf o ffermwyr heddiw yn arbenigo mewn un math o ffermio.

Dywedodd AJ ei fod yn gweithio ar brosiect tebyg ac mae'n gefnogol o'r prosiect.

Cytunodd EY fod angen paratoi y data nawr, er efallai na fydd yn ddefnyddiol yn bresennol, mi fydd yn y dyfodol.

Nododd AE fod yr ardal yn SSSI a gall hyn fod yn broblem.

Gofynnodd ZP sut y byddai ffermwyr sydd ddim yn ardal Biosffer Dyfi yn gallu buddio o'r data.

Eglurodd AR y bydd y ffermwyr yma yn gallu cael mynediad i'r data a bod yn rhan o'r drafodaeth. Mae'r egwyddorion yn berthnasol i rhai ohonynt.

Gofynnodd DG os oes modd profi amcan y prosiect am llai o gost. Eglurodd AR fod cost y prosiect yn ddibynnol ar y daeaeryddiaeth. Dywedodd CI fod y prosiect yn un cymunedol oherwydd pobl lleol sydd wedi casglu'r data i helpu ffermwyr lleol.

Atgoffodd DG yr aelodau fod hwn yn brosiect cydweithredol ac os y bydd Gwynedd yn tynnu yn ôl yno bydd risg ei fod ddim yn dilyn ethos LEADER a'i nodweddion bwysig o gydweithio a rhwydweithio gydag ardaloedd LEADER eraill.

Awgrymodd AJ ein bod yn gwella ein cyfathrebu gyda Powys a Ceredigion er mwyn cyd-weithio yn well.

Dywedodd DI ei fod yn gefnogol o'r cais oherwydd mae'n credu fod angen mwy o fwyd gael ei gynhyrchu yn lleol. Heb y data yma mae'n anodd i'r cenhedlaethau yn y dyfodol wybod sut i fynd ati i ffermio cymysg.

Cytunodd IN fod angen casglu'r data, yn enwedig gyda Brexit yn agosau. Mi fydd y data yn gallu rhoi awgrymiadau i ni ar sut i fod yn fwy cynaliadwy.

Gofynnwyd i AR a CH adael yr ystafell er mwyn cynnal pleidlais.

Canlyniadau y pleidlais:

- 9 o blaid
- 4 yn erbyn

Gan fod y mwyafrif wedi pleidleisio o blaid, mi fydd y prosiect yn cael ei gymeradwyo am y cyfanswm o £23,196.60.





Cofnodion Grwp Gweithredu Lleol

Dyddiad Nesaf

10.	Cadarnhodd ZP dyddiad nesaf LAG sef, 1af o Fai 2019, Lleoliad i'w gadarnhau.	
-----	--	--

